



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Enw:	<i>Aliya Iftikhar, Swyddog Polisi</i>
Sefydliad:	<i>Cymorth i Ferched Cymru</i>
Cyfeiriad e-bost:	<i>Aliyaiiftikhar@welshwomensaid.org.uk</i>
Rhif Ffôn:	<i>02920 541 551</i>
Cyfeiriad:	<i>Tŷ Pendragon, Caxton Place, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE</i>
Dyma farn:	<i>Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) - yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.</i>

Mae yna fyrdd o rwystrau mae goreswyr VAWDASV yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at dai yn yr hinsawdd bresennol. Yn dilyn pandemig Covid-19, blynnyddoedd o galedi, prinder tai a nawr yr argyfwng costau byw, mae dod o hyd i dai digonol wedi dod - ymhell o fod yn hawl benodol a sylfaenol - yn her anghyffredin i'w darganfod a'i gynnal. Er bod rhwystrau i dai ar draws y gymdeithas, i'r rhai sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, i'r menywod hynny sy'n ffoi rhag trais a cham-drin, ac i'r rhai sy'n ceisio ailadeiladu eu bywyd yn dilyn y trawma hwn, mae'r rhwystrau hyn wedi'u gwaethygu ymhellach.

Mae'r ofn o adael cartref a phreswyllo yn rhywle sydd neu sydd â'r potensial i fod yn anniogel yn aml yn rheswm pam mae goreswyr yn aros mewn cartref lle mae cam-drin neu drais yn cael ei gyflawni. Mae hyn wedi gwaethygu yn ystod yr argyfwng tai a chostau byw gyda'r anhawster o ddod o hyd i rywle i fyw o gwbl yn cynyddu'n fawr. Fel yr amlygwyd yn ein Briff Grŵp Tai Trawsbleidiol blaenorol¹, ni ellir tanbriso'r croestoriad rhwng tai a VAWDASV. Mae cam-drin yn digwydd yn aml yn y cartref, lle dylai pawb deimlo'n fwyaf diogel. Mae'r rhai sy'n ffoi rhag camdriniaeth a/neu drais yn gofyn am amgylchedd diogel a phriodol i brosesu eu trawma ac i fyw bywyd heb ofn. Mae Cymru yng nghanol argyfwng tai, lle nad oes digon o lety addas ar gyfer y bobl sydd ei angen. Pan fydd goreswr yn gwneud y penderfyniad i adael sefyllfa ymosodol neu dreisgar, gall fynd i mewn i ddarpariaeth lloches frys dros dro. Dim ond fel opsiwn tymor byr y bwriedir darpariaeth lloches, ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae gwasanaethau arbenigol wedi cael 252 o oroeswyr sydd wedi aros mewn lloches am dros chwe mis. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddir yw diffyg symud ar lety. Mae preswyllo mewn lloches yn cynnig diogelwch sy'n achub bywyd, fodd bynnag, nid yw'n ddatrysiad tai parhaol. Fel arfer, nid yw darpariaeth lloches yn caniatáu ymwelwyr er mwyn sicrhau diogelwch ei thrigolion, ac yn aml mae cyrffiw. Ni ddylid byth ystyried lloches yn 'gartref', gan fod goreswyr yn mynd i loches

¹ <https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/Cross-Party-Groups-on-Housing-and-on-Violence-against-Women-and-Children-on-housing-and-sexual-violence.pdf>

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XF

Ffôn: 02920 541551

info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, Rhif 1140962
Cwmni cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr, Rhif 07483469.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

oherwydd eu bod yn ffoi rhag risg o niwed sydd ar fin digwydd a dim byd arall. Gall ceisio lloches barhaol fod yn broses hir a llafurus i unrhyw unigolyn², tra bod bod yn oroeswr yn ychwanegu rhwystrau pellach. Mae angen i'r Hawl i Dai Digonol sicrhau bod digon o dai digonol ar gael i'r rhai sydd eu hangen. Er bod Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn ceisio gweithredu sicrwydd deiliadaeth ar gyfer y rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol a phreifat, rydym ni'n credu'n sylfaenol nad yw hyn yn gweithio ar gyfer pob darpariaeth lloches. Mae hyn oherwydd natur ddiogel y Ddeddf nad yw'n cyd-fynd â darparu llety lloches brys dros dro.

Gan fod prinder llety parhaol, mae Llywodraeth Cymru yn eu Cynllun Gweithredu Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd yng Nghymru wedi datgan eu bod yn bwriadu canolbwyntio ar atal a model tai cyflym³. Maen nhw'n nodi ymhellach y dylai pob gwasanaeth weithio mewn ffordd sy'n wybodus o ran trawma. Er mwyn i'r Hawl i Dai Digonol fod yn llwyddiannus yn ymarferol, mae WWA yn credu bod angen ymwybyddiaeth a dealltwriaeth draws-sector ar bob lefel, boed hyn yn Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a darparwyr tai, o'r anawsterau mae goroeswyr yn eu hwynebu yn y system dai a'r effaith y gall cam-drin domestig a mathau o drais ei chael.

Opsiynau tai ar gyfer goroeswyr ar ôl neu yn lle lloches neu fathau eraill o lety dros dro yw tai cymdeithasol, landlordiaid preifat neu berchentyaeth. Yn aml, mae llawer o rwystrau gwahanol yn ffordd goroeswyr pan fyddant yn ceisio llywio'r system dai. Ers i Linell Gymorth Byw Heb Ofn ddechrau cofnodi cam-drin ariannol ym mis Ebrill 2022, bu 577 o gofnodion. Yn ystod 2021/2022, nododd 38% o oroeswyr wnaeth fanteisio ar loches eu bod wedi profi cam-drin ariannol. Mae cam-drin ariannol yn fath o reolaeth drwy orfodaeth lle mae'r cyflawnwr yn cyfyngu ar y rheolaeth sydd gan y goroeswr dros ei gyllid. Gallai hyn olygu nad oes gan y goroeswr fynediad at eu cronfeydd eu hunain, nad yw erioed wedi gallu talu biliau neu nad oes ganddo unrhyw arian i gynnal ei hun wrth ffoi. Gan fod cam-drin ariannol yn fath o reolaeth dan orfodaeth - a all, yn ôl ei natur llechwraidd, fod yn anodd ei ddiffinio - mae'n debygol bod canran wirioneddol y goroeswyr sydd wedi profi cam-drin ariannol yn llawer uwch na'r rhai sydd wedi ei nodi'n benodol. Gall sefydlogrwydd ariannol ar ôl cam-drin fod yn anodd iawn i'w gyflawni a'i gynnal a bydd yn debygol o effeithio ar oroeswr pan fyddant yn symud ymlaen i lety newydd, er enghraifft gall fod yn anodd iawn llywio biliau a gallant gronni dyled. Gallai hyn arwain at droi allan ac efallai y bydd cyfyngiadau ar rentu eiddo yn y dyfodol, yn hytrach na derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt. Bydd goroeswyr cam-drin ariannol a/neu fathau eraill o gam-drin a thrais yn wynebu llu o rwystrau i sicrhau llety addas a diogel. Efallai na fyddant yn cael eu hystyried yn 'ymgeisydd dymunol' ar gyfer landlordiaid preifat oherwydd eu sefyllfa ariannol neu eu cysylltiad â chyflawnwr, mewn marchnad sydd eisoes yn hynod gystadleuol. Mewn pecyn cymorth a gyhoeddwyd yn ddiweddar, amlygodd Surviving Economic Abuse fod 42% o landlordiaid wedi gwrthod gosod eiddo i'r rhai ar fudd-daliadau tai⁴. Mae eiddo rhent preifat hefyd yn aml yn

² https://www.solacewomensaid.org/sites/default/files/2019-10/Solace_SafeasHousesReport_FINAL_0.pdf

³ https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-11/ending-homelessness-high-level-action-plan-2021-2026_0.pdf

⁴ https://www.dahalliance.org.uk/media/10649/3_-wha-economic-abuse.pdf

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XF

Ffôn: 02920 541551

info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, Rhif 1140962
Cwmni cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr, Rhif 07483469.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

gofyn am brawf o enillion a blaendal ymlaen llaw. Mae yna lawer o resymau gwahanol pam nad oes gan oroeswr yr arian ar gyfer hyn, oherwydd caledi ariannol, ac felly byddai'n annhebygol o allu sicrhau eiddo rhent preifat. Mae hyn yn rhoi'r goroeswyr hynny nad ydynt yn sefydlog yn ariannol dan anfantais ac yn creu anghydraddoldeb rhwng goroeswyr yn dibynnu ar eu sefyllfa ariannol. I adleisio ein pwyntiau uchod, gallai'r holl ffactorau hyn gyfrannu at oroeswr yn teimlo ei fod yn cael ei orfodi i barhau i fyw gyda'i gyflawnwr.

Gall methu â sicrhau tenantiaethau oherwydd derbyn budd-daliadau tai neu oherwydd anawsterau ariannol arwain at gamfanteisio'n rhywiol ar oroeswyr VAWDASV. Fe wnaeth Grŵp Gweithredol Cymru Gyfan ar Fenywod sy'n profi Camfanteisio'n Rhywiol, a gynhaliwyd gan WWA, amlygu bod oedolion sy'n profi camfanteisio'n rhywiol yn cael eu cymell, eu gorfodi neu eu dylanwadu i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol gan drydydd parti neu allan o reidrwydd i ariannu anghenion sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys rhyw ar gyfer trefniadau rhent, lle mae unigolyn yn cynnig llety ar gyfradd is neu am ddim, yn gyfnewid am weithredoedd rhywiol. ^[5] Efallai y bydd rhai goroeswyr yn teimlo mai dyma'r unig opsiwn i sicrhau llety, fodd bynnag, mae hyn yn gadael unigolion yn agored i gamdriniaeth a thrais pellach. Amlygodd papur briffio 2022 ymhellach, allan o 101 o ferched oedd wedi gwerthu neu gyfnewid rhyw neu ddelweddau, fod 63 wedi bod yn ddiartref ar ryw adeg yn eu bywyd. ^[6] Gall y rhwystrau mae goroeswyr yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad i lety addas a diogel rwystro eu proses o gymryd rheolaeth o'u bywydau eu hunain a byw heb ofn.

Ymhellach i hyn, yn aml nid yw eiddo rhent yn caniatáu i breswylwyr gael anifeiliaid anwes ac nid yw llawer o lochesi chwaith. Mae Dogs Trust wedi tynnu sylw at y ffaith bod 9 o bob 10 gweithiwr proffesiynol ^[7] wedi datgan na fydd rhai goroeswyr yn gadael cartref heb wybod y byddai eu hanifeiliaid anwes yn ddiogel. Oherwydd diffyg llety sy'n caniatáu anifeiliaid anwes, gall llawer o oroeswyr benderfynu parhau i fyw yn y cartref lle maen nhw mewn perygl o gamdriniaeth a thrais. Mae hyn yn rhoi goroeswyr mewn sefyllfa anodd pan fyddant am ffoi i ddiogelwch ond hefyd eisiau aros gyda'u hanifeiliaid anwes annwyl, sydd yn aml yn fecanweithiau cymorth.

Mae WWA yn credu ei bod yn hanfodol bod y ddeddfwriaeth i weithredu'r Hawl i Dai Digonol yn caniatáu dealltwriaeth o'r anfantais a'r croestoriadedd lluosog mae unigolion yn eu hwynebu. Dylai hefyd sicrhau nad yw'r gweithredu yn gadael goroeswyr yn agored i gamdriniaeth neu drais pellach. Rydym ni'n credu y dylai ymgynghori â gwasanaethau arbenigol mewn VAWDASV fod ar flaen y gad o ran unrhyw benderfyniad a wneir ar Yr Hawl i Dai Digonol, er mwyn sicrhau bod y rhwystrau i oroeswyr yn cael eu dileu a bod y system yn cefnogi goroeswyr, wrth weithredu ac ymarfer. Rydym ni'n credu'n gryf, er mwyn creu system dai sy'n cefnogi goroeswyr VAWDASV ac yn

⁵ https://d3n8a8pro7vvhmx.cloudfront.net/npto/pages/7648/attachments/original/1636731376/Briefing_PCSC_Bill_Amendments_292A_292B_Nov_21.pdf?1636731376

⁶ https://www.encompassnetwork.info/uploads/1/4/2/8/142838553/encompass_snapshot_2022.pdf

⁷ Arolwg Anifeiliaid Anwes a Cham-drin Domestig 2019 - Newyddion a diweddariadau - Dogs Trust Freedom Project

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XF

Ffôn: 02920 541551

info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestrdig yng Nghymru a Lloegr, Rhif 1140962
Cwmni cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr, Rhif 07483469.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

dileu rhwystrau, bod angen canolbwyntio ar degwch a beth mae hyn yn ei olygu i wahanol grwpiau ar y cyrion.

I ddangos y pwynt hwn; cynyddodd prisiau rhentu preifat blynyddol o3.2% erbyn mis Hydref 2022⁸ yng Nghymru ac mae disgwyl i filiau cyfleustodau gael eu codi ymhellach ym mis Ebrill 2023⁹. Mae merched a grwpiau lleiafrifol yn cael eu heffeithio'n sylweddol ac yn anghymesur gan yr argyfwng economaidd-gymdeithasol presennol. Er enghraifft, mae merched yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu ac mae'r rhai sydd â chyfrifoldebau o'r fath yn annhebygol o allu cynyddu eu horiau yn y gwaith. Nodwyd bod merched sy'n rhieni sengl yn fwy tebygol o fod â llai o gynilion¹⁰. Mae'r rhai sy'n dod o grwpiau ethnig Bangladeshaidd, Pacistanaidd a Du yn fwy tebygol o gael eu heffeithio'n anghymesur gan yr argyfwng costau byw, gan fod cyfraddau tlodi yn sylweddol uwch o fewn y grwpiau hyn sy'n wynebu nifer o rwystrau cymdeithasol. ¹¹. Ystyrir bod merched sy'n byw mewn tlodi ac sydd ag anghenion lluosog heb eu diwallu mewn mwy o berygl o drais gan bartner agos¹². Amcangyfrifwyd yn 2021-2022 yr aseswyd bod 11,704 o aelwydydd yn ddigartref a bod dyletswydd arnom i helpu i sicrhau llety gan yr awdurdod lleol. Fodd bynnag¹³, mae'r ffigur hwn yn debygol o fod yn llawer uwch mewn gwirionedd oherwydd y rhai sy'n ddigartref cudd. Mae'r rhain yn unigolion nad ydynt yn bresennol i'r awdurdod lleol, yn byw gyda theulu neu sy'n syrffio soffâ.

Er mwyn deall sut y byddai'r Hawl i Dai Digonol yn gweithio'n ymarferol a'r heriau a'r rhwystrau posibl, mae'n hanfodol tynnu sylw at yr ardaloedd lle rydym ni'n credu bod y system dai bresennol yn methu goroeswyr ar sawl lefel. Yn ystod ymgyrch Cefnogi'r Mesur, crynhowyd yr hawl i dai digonol fel 'mae gan bawb yr hawl i fyw yn rhywle mewn diogelwch, heddwch ac urddas'¹⁴. Er mwyn i hyn gael ei gyflawni, mae WWA yn credu bod angen tai fforddiadwy, hygyrch a phriodol i oroeswyr VAWDASV, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu adfer ac ailadeiladu eu bywydau mewn amgylchedd diogel a sicr.

Mae WWA yn cydlynu fforwm gweithwyr camfanteisio'n rhywiol, ar gyfer gweithwyr ar y rheng flaen. Mewn fforwm diweddar, nodwyd nad oedd yr asesiad digartrefedd a oedd yn cael ei gynnal ar gyfer llawer o oroeswyr ag anghenion cymhleth a'r rhai a oedd wedi cael eu hecsbloetio, yn briodol wybodus o ran trawma. Amlygwyd nad oedd yr asesiad digartrefedd yn ystyried anfantaision lluosog nac anghenion gwahanol goroeswyr. Ar hyn o bryd, yn aml mae angen i'r awdurdod lleol ddod i gysylltiad â goroeswr, heb gyfrif am y ffaith y gallai rhai unigolion fyw bywyd dros dro neu efallai na fydd ganddynt fynediad at ffôn. Mae diffyg dull sy'n seiliedig ar gryfder, person-ganolog mewn sefyllfaoedd lle nad yw'r rhai sy'n profi camfanteisio'n rhywiol yn cael eu deall, ac mae hyn yn cael ei

⁸<https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/indexofprivatehousingrentalprices/october2022>

⁹ <https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-9491/CBP-9491.pdf>

¹⁰ <https://wbg.org.uk/wp-content/uploads/2022/03/The-gendered-impact-of-the-cost-of-living-crisis.pdf>

¹¹ Ibid.

¹² https://www.agendaalliance.org/documents/138/Underexamined_and_Underreported_Briefing.pdf

¹³ <https://www.gov.wales/homelessness-accommodation-provision-and-rough-sleeping-november-2022>

¹⁴ <https://www.taipawb.org/wp-content/uploads/2022/10/Right-to-adequate-housing-5-things.pdf>

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XF

Ffôn: 02920 541551

info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, Rhif 1140962
Cwmni cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr, Rhif 07483469.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

farco yn eu herbyn pan fyddant yn methu apwyntiadau neu'n anodd dod i gysylltiad â nhw. Maen nhw felly yn cael eu labelu a'u stigmatiddio fel annibynadwy ac yn amharod i ymgysylltu. Cynhaliodd Shelter ymchwil i'r system tai a digartrefedd bresennol ac amlygodd ymhellach fod unigolion yn teimlo eu bod yn ail-fyw digwyddiadau trawmatig, a bod disgwyliad yn aml y byddai ganddynt ddogfennaeth swyddogol gyda nhw¹⁵. Nid yw'r disgwyliad y bydd unigolion yn cario dogfennau swyddogol gyda nhw, er enghraifft, yn ystyried amgylchiadau goroeswyr VAWDSV sydd wedi gorfod ffoi rhag risg o niwed difrifol. Mae hyn yn tynnu sylw at y diffyg dealltwriaeth gan rai sy'n cynnal yr asesiadau, o anaddasrwydd eu ceisiadau ac o'r effaith ail-drawmateiddio parhaol.

Mae'n hanfodol nad yw'r cais a'r asesiad digartrefedd yn ail-drawmateiddio nac yn trawmateiddio goroeswyr ymhellach. Er mwyn gweithredu'r Hawl i Dai Digonol yn llwyddiannus, rhaid i staff sy'n cwblhau ceisiadau digartref werthfawrogi'n llawn yr ystod o sefyllfaoedd ac amgylchiadau gwahanol sy'n arwain pobl at fod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae WWA yn credu'n gryf bod rhaid cael dull sy'n wybodus o ran trawma, yn seiliedig ar gryfderau ac yn seiliedig ar anghenion, i sicrhau bod goroeswyr yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi'n gywir i gael tai parhaol. Mae'n hanfodol nodi anghenion penodol y goroeswr, fel y gall staff yr awdurdod lleol weithio gyda nhw ac atal unrhyw rwystrau pellach rhag cael tai digonol. Byddai'r gydnabyddiaeth benodol hon o'r rhesymau pam mae goroeswyr yn ddigartref ar hyn o bryd, yn helpu i godi ymwybyddiaeth o VAWDASV drwy Bolisi Tai Cymru. Fodd bynnag, nid yw ymwybyddiaeth o VAWDASV yn ddigon, mae angen ymrwymiad i sicrhau bod yr Hawl i Dai Digonol yn gweithio i oroeswyr VAWDASV yn ymarferol.

Mae'r model Tai yn Gyntaf yn ddull unigryw o fynd i'r afael â digartrefedd sy'n canolbwyntio ar lety hirdymor, fforddiadwy. Dylai'r llety hwn gael ei ddarparu cyn gynted â phosibl, gan ddilyn gyda chefnogaeth i helpu i sicrhau bod yr unigolyn yn gallu cynnal ei denantiaeth¹⁶. Mae'r Model Tai yn Gyntaf yn seiliedig ar egwyddorion megis; mae tai yn hawl dynol, mae ymgysylltu gweithredol heb orfodaeth a dylai defnyddwyr gwasanaeth gael dewis a rheolaeth¹⁷. Cyflawnir tai yn y lle cyntaf ac mae unrhyw anghenion cymorth yn cael eu diwallu wedyn. Nid yw'r system dai bresennol na'r system asesu tai yn caniatáu i oroeswyr gael dewis na rheolaeth. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae llawer o oroeswyr yn ei chael hi'n anodd defnyddio'r system dai oherwydd pryderon ariannol, diffyg llety parhaol diogel a phriodol a bod y system yn eu hail-drawmateiddio neu'n trawmateiddio ymhellach. Mae angen i ymgorffori'r Hawl i Dai Digonol gael ei ategu gan y rhagosodiad a'r ddealltwriaeth bod tai yn hawl ddynol, ac mae'n allweddol i oroeswyr ffynnu a chael eu cefnogi wedyn. Mae'n anodd i oroeswyr gael cymorth sefydlog a chyson pan fydd eu sefyllfa dai yn un dros dro neu'n fyrhoedlog. Mae angen gwneud popeth i gael gwared ar y rhwystrau a'r gwahaniaethu mewn tai sy'n cael eu profi gan oroeswyr VAWDASV. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015¹⁸, rhaid i

¹⁵ <https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2023/02/Trapped-on-the-Streets-Full-Report.pdf>

¹⁶ <https://www.cymorthcymru.org.uk/en/policy/housing-first/>

¹⁷ <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/housing-first-principles-guidance-for-local-authorities.pdf>

¹⁸ <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/WFGAct-English.pdf>

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XF

Ffôn: 02920 541551

info@welshomensaid.org.uk | www.welshomensaid.org.uk

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestrdedig yng Nghymru a Lloegr, Rhif 1140962
Cwmni cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr, Rhif 07483469.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Weinidogion Cymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau a cheisio atal problemau. Byddai gweithredu'r Hawl i Dai Digonol, o'i wneud yn gywir, yn caniatáu i Weinidogion sicrhau bod anghenion y goroeswyr presennol yn cael eu diwallu, heb beryglu gallu'r goroeswyr hynny yn y dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r Hawl i Dai Digonol hefyd yn hawl ryngwladol o dan Erthygl 11 (1) o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol¹⁹. Bydd gweithredu'r Hawl i Dai Digonol yng nghyfraith Cymru yn dangos ymrwymiad i hyn.

Mae WWA hefyd yn credu bod angen ffocws a dealltwriaeth benodol ar yr effaith mae tai ansicr yn ei chael ar blant a phobl ifanc. Plant a allai fod wedi gweld, profi, neu fyw gyda cham-drin domestig neu fathau eraill o drais, ac sydd i gael eu hystyried yn oroeswyr yn eu rhinwedd eu hunain. Fel yr amlygwyd yn 'Dyletswydd i Gefnogi'²⁰, mae loteri cod post o ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen cymorth arbenigol. Mae Shelter wedi tynnu sylw at y ffaith bod teuluoedd sy'n rhentu 9 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi symud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf na theuluoedd sy'n berchen ar eu cartrefi²¹. Mewn eiddo rhent, mae pryderon yn aml am y prisiau rhent cynyddol, amodau byw gwael neu allu talu rhent yn fwy cyffredinol. Mae plant eisoes yn wynebu loteri o fynediad at gymorth arbenigol, ac mae'r tebygolrwydd cynyddol o orfod symud cartrefi yn caniatáu i blant syrthio drwy fylchau gwasanaethau oherwydd diffyg parhad cefnogaeth.

Fel yr amlygwyd yn adroddiad Trais ar sail Rhyw, Anghenion Merched Mudol gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol²², mae'r rhai nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus (NRPF) yn wynebu rhwystrau sylweddol o ran tai. Pan fydd unigolion sy'n profi NRPF yn cael eu cartrefu, maen nhw'n debygol o fod mewn llety sydd o gyflwr gwael neu mewn ardal heb rwydwaith cymorth. Yn ystod 2021/22, cefnogwyd 24 o oroeswyr heb hawl gan loches a dim ond 36% o wasanaethau arbenigol yng Nghymru sy'n gallu derbyn merched â NRPF. Mae llawer o wasanaethau arbenigol yn aml yn cael eu hunain yn lletya merched sydd â NRPF mewn lloches, trwy ddefnyddio arian o gronfeydd wrth gefn, nad yw'n ymarferol yn ariannol ar gyfer y gwasanaeth. Er bod budd-daliadau'r wladwriaeth yn cael eu cadw ar gyfer San Steffan, mae tai wedi'u datganoli i Gymru. Rydym ni'n croesawu bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad y pwyllgor i sefydlu cronfa argyfwng, fodd bynnag, mae manylion cyfyngedig hyn eto i'w cadarnhau. Yn sylfaenol, ni all gweithredu'r Hawl i Dai Digonol eithrio'r rhai sydd â NRPF, ac mae angen canllawiau clir ar sut y bydd y gronfa yn cefnogi goroeswyr gyda NRPF i sicrhau mynediad at dai digonol.

Rydym ni'n credu na fyddai'r Hawl i Dai Digonol ond yn gweithio'n ymarferol pe bai'n ystyried bod gan bob unigolyn hawl ddiarnheulol i dai digonol; ac mae pwysigrwydd diogelwch a thai cyson i oroeswyr VAWDASV wedi'i ymgorffori'n ystyrllon. Byddai'r heriau i gymhwyso'r polisi hwn yn gorwedd

¹⁹ <https://www.ohchr.org/en/instruments-mechanisms/instruments/international-covenant-economic-social-and-cultural-rights>

²⁰ <https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/06/CYP-FOI-Report-ENG-WWA.pdf>

²¹ https://assets.ctfassets.net/6sxvmdnnpn0s/77ViBSpWpGzZdUcsXu77of/f7b8b461208d6207d87f4295aefd112d/Growing_up_renting.pdf

²² <https://senedd.wales/media/zh5helfw/cr-ld15422-e.pdf>

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XF

Ffôn: 02920 541551

info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, Rhif 1140962
Cwmni cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr, Rhif 07483469.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

mewn diffyg dealltwriaeth o sut mae tai annigonol yn effeithio ar oroeswyr a sut mae'n rhoi baich bellach ar y rhai sydd ag anfanteision lluosog. Er mwyn goresgyn y rhwystrau a'r heriau hyn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori'n llawn â'r sector VAWDASV, gan gynnwys cyswllt penodol â sefydliadau ar eu cyfer, er mwyn sicrhau bod yr Hawl i Dai Digonol yn diwallu anghenion goroeswyr. Rhaid i bob unigolyn sy'n gweithio ym maes tai, boed ar lefel Llywodraeth Cymru neu awdurdod lleol gael hyfforddiant VAWDASV rheolaidd, i sicrhau eu bod yn deall gwahanol fathau o gamdriniaeth/trais a'r lluo o sefyllfaoedd lle gall goroeswr fod yn ddigartref neu y bydd angen cartref newydd arno. Ymhellach i hyn, dylid darparu hyfforddiant penodol i sicrhau bod y rhai o fewn tai yn deall anfanteision lluosog a'r anawsterau mae grwpiau ar y cyrion yn eu hwynebu, er mwyn sicrhau bod rhwystrau systematig yn cael eu chwalu. Mae angen i'r polisi fod yn wybodus o ran trawma, yn seiliedig ar gryfderau ac yn cael ei arwain gan yr unigolyn, ac mae angen i hyn gael ei ymgorffori ym mhob rhan o'r sector tai, yn yr asesiad digartrefedd ac wrth ei weithredu gan landlordiaid rhent cymdeithasol a phreifat. Rydym ni'n ymwybodol y bydd yr Hawl i Dai Digonol yn bolisi blaengar, ond rhaid sicrhau bod yr holl adnoddau'n cael eu defnyddio er mwyn cyflawni'r nod polisi tymor hir hwn a bod eglurder pellach ar y gronfa ar gyfer goroeswyr gyda NRPF.

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XF

Ffôn: 02920 541551

info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestrdedig yng Nghymru a Lloegr, Rhif 1140962
Cwmni cyfyngedig drwy warant yng Nghymru a Lloegr, Rhif 07483469.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government